NCA
National Crime Agency

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
actionfraud.police.uk

Twyll dargyfeirio taliadau: trawsgludo

Mae troseddwyr wrthi'n targedu pryniannau eiddo, gyda'r nod o'ch twyllo i drosglwyddo eich blaendal tŷ a / neu falans yr arian prynu iddynt.

Gall y cynlluniau hyn fod yn soffistigedig iawn, a bron bob amser maent yn golygu bod y troseddwyr yn esgus bod yn gyfreithiwr i chi er mwyn eich gorfodi i ddargyfeirio'ch taliad i gyfrif y maen nhw'n ei reoli.

Byddwch yn hynod wyliadwrus os yw'n ymddangos bod unrhyw newid yn y manylion talu, a gwiriwch ddwywaith bob amser trwy ffonio'ch cyfreithiwr cyn i chi drosglwyddo'ch arian, oherwydd gellir rhyng-gipio neu ddargyfeirio e-byst.

Gallwch brofi'r cyfrif trwy anfon swm bach at fanylion y cyfrif a ddarperir a gwirio bod eich cyfreithiwr wedi derbyn hwn cyn trosglwyddo'r holl arian.

Gall dioddefwyr golli cannoedd o filoedd o bunnoedd, ac efallai na fyddant byth yn cael eu harian yn ôl.

Astudiaeth achos: mae dioddefwr twyll trawsgludo yn colli £640,000

Cafodd prynwr tŷ ei sgamio i drosglwyddo dros £640,000 fel rhan o dwyll trawsgludo. Roedd troseddwyr wedi rhyng-gipio e-byst rhwng y prynwr a'u cyfreithiwr. O ganlyniad, roedd y troseddwyr yn gallu casglu'r holl wybodaeth yn ymwneud â phrynu tŷ.

Yna defnyddiodd y troseddwyr gyfrif e-bost ffug (a wnaed i ymddangos fel cyfrif y cyfreithiwr) i ofyn am daliad. Darparwyd manylion talu ar bapur â pennawd y cyfreithwyr trwy'r e-bost ffug, a'r swm y gofynnwyd amdano oedd yr union beth yr oedd prynwr y tŷ wedi disgwyl ei dalu.

Yn ddiweddarach, cynghorwyd y dioddefwr gan y cyfreithiwr dilys na ofynnwyd am y taliadau hyn. Ni adenillwyd mwyafrif yr arian erioed, gan ddileu ecwiti a chynilion y dioddefwr bron, ac arwain at fethiant eu pryniant. Cafodd y twyll effaith ddinistriol gydol oes ar y prynwr tŷ a'i gyllid personol.

Sut i amddiffyn eich hun rhag dioddef twyll trawsgludo

- **Sicrhewch fanylion banc gan eich cwmni cyfreithiol naill ai'n bersonol neu dros y ffôn** ar ddechrau'r broses drawsgludo a chytuno ar fecanwaith cadarn lle byddai unrhyw newidiadau dilys ym manylion y banc yn digwydd, megis eu cadarnhau'n bersonol. Gofynnwch iddyn nhw gadarnhau'r manylion trwy'r post os ydych chi wedi'u cael yn bersonol neu dros y ffôn.

- **Anaml y bydd cwmnïau cyfreithiol yn newid eu manylion banc. Os ydych chi'n derbyn e-bost neu alwad ffôn yn nodi newid ym manylion y banc, cwestiynwch ei ddilysrwydd. Gwiriwch fanylion y banc yn uniongyrchol bob amser gyda'ch cyfreithiwr CHI neu rywun uwch yn y cwmni** trwy eu ffonio ar eu rhif ffôn cyhoeddedig. Peidiwch â theimlo dan bwysau i newid unrhyw fanylion cyn i chi siarad â rhywun o'r cwmni. Gwiriwch y cyfeiriad e-bost yn ofalus ac os oes unrhyw amheuaeth, **defnyddiwch rif ffôn dibynadwy i wirio bod y wybodaeth yn gywir**, nid yr un a roddir yn yr e-bost sy'n mynnu taliad.

- **Gosodwch gyfrineiriau cryf ac ar wahân** ar gyfer eich cyfrifon, a gwnewch yn siŵr bod gennych feddalwedd gwrth feirws wedi'i gosod ar eich dyfeisiau; mae'r twyll hyn fel arfer yn dibynnu ar beryglu cyfrifon e-bost. I greu cyfrinair cryf, dewiswch dri gair ar hap. Gellir ychwanegu rhifau a symbolau o hyd os oes angen.

- **Osgowch bostio ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch prynu / gwerthu** eich tŷ neu gael morgais. Efallai y bydd twyllwyr yn cael gafael ar y wybodaeth hon, a chan wybod bod y cam nesaf fydd trafodiad ariannol mawr, gallent geisio eich targedu.

- **Osgowch ddefnyddio systemau Wi-Fi cyhoeddus neu heb ddiogelwch** i wirio e-byst pan fyddwch chi'n prynu tŷ. Gall twyllwyr hacio i mewn i systemau Wi-Fi bregus yn hawdd.

- Os ydych chi'n gwneud taliad i gyfrif am y tro cyntaf, **trosglwyddwch swm bach yn gyntaf** ac yna gwiriwch gyda'r cwmni cyfreithiol gan ddefnyddio manylion cyswllt hysbys bod y taliad wedi'i dderbyn.[1]

- **Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch y trafodiad yna peidiwch â throsglwyddo'ch arian** nes eich bod yn fodlon ei fod yn gywir; **a allwch fforddio colli'ch blaendal cyfan neu'r arian prynu cyfan?**

Os ydych yn amau eich bod wedi dioddef twyll trawsgludo dylech ar unwaith:

- **Cysylltu â'ch banc** i'w hysbysu am y gweithgaredd twyllodrus, gan ofyn iddynt gysylltu â'r banc derbyn i rewi'r arian

- **Rhybuddio'ch cyfreithiwr**; efallai eu bod yn cael eu targedu gan droseddwyr, a allai beri risg i gwsmeriaid eraill.

- **Cysylltu ag Action Fraud**; riportiwch dwyll a amheuir i Action Fraud trwy eu gwefan:www.actionfraud.police.uk/reporting-fraud-and-cyber-crime neu drwy ffonio 0300 123 2040.

NECC
NATIONAL ECONOMIC CRIME CENTRE

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

[1] Twyll - Y Ffeithiau 2021 Y Trosolwg Diffiniol o Dwyll y Diwydiant Talu, Cyllid y DU